



Rhaglen Gyflawn

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Corporate Support Department
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 12FED IONAWR, 2016

Lleoliad

Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

<http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home>

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

(Dosbarthwyd , 6 Ionawr 2016)

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Craig ab Iago
Dilwyn Morgan
E. Caerwyn Roberts

Annwen Daniels
Linda Morgan
Gruffydd Williams
Sedd wag

Annwen Hughes
W. Tudor Owen
Eurig Wyn

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Eric M. Jones
Angela Russell
Louise Hughes

Nigel Pickavance
Mike Stevens

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Endaf Cooke

Llafur (1)

Y Cynghorydd Glyn Thomas

Democratiaid Rhydfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen W. Churchman

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

1 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2015, fel rhai cywir

5. YMATEB Y CABINET I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU

6 - 8

Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ar ymateb y Cabinet i argymhellion y Pwyllgor Craffu

6. YMATEB CYNGOR GWYNEDD I ARGYFWNG Y FFOADURIAID O SYRIA

9 - 10

Ystyried adroddiad sydd yn rhoi amlinelliad i aelodau ynghlyn a pharatoadau

7. TREFNIADAU CASGLU GWASTRAFF AC AILGYLCHU

11 - 13

Ystyried adroddiad ar y prif ganfyddiadau [hyd yn hyn] o weithredu'r drefn yn Ardal Meirionnydd

8. Y GWASANAETH DIFA PLA

14 - 33

Craffu opsiynau posib ar gyfer darpariaeth y gwasanaeth difa pla i'r dyfodol

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU DYDD MAWRTH, 17 TACHWEDD 2015

YN BRESENNOL: Angela Russell (Cadeirydd)
E. Caerwyn Roberts (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Annwen Daniels, Annwen Hughes, Dilwyn Morgan, Gruffydd Williams, Eurig Wyn, Eric M. Jones, Glyn Thomas a Stephen W. Churchman

SWYDDOGION: Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr - Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

HEFYD YN BRESENNOL:

Mewn perthynas ag eitem 5 a 6 ar y rhaglen: Cyngorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio), Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd, Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Rheoleiddio Dros Dro) a Rhun ap Iarll (Uwch Gyfreithiwr),

Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen: Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Louise Hughes, Linda Morgan, Tudor Owen, Mike Stevens, Elwyn Edwards (ar gyfer eitem 5) a Gareth Thomas (ar gyfer eitem 7)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 17 Medi 2015 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

5. YR IAITH GYMRAEG Â'R DREFN GYNLLUNIO

- a) Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio yn ymateb i gais yr Aelodau am wybodaeth gefndirol mewn perthynas â'r drefn gynllunio a'r iaith Gymraeg. Cyfarchwyd y materion isod yn yr adroddiad.
 - i. Gosod y cyd-destun statudol o ran Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
 - ii. Egluro'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol (TAN 20)
 - iii. Egluro'r Polisi Cynllunio Lleol Cyfredol (Y Cynllun Datblygu Unedol a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg)
 - iv. Egluro sut mae'r Gwasanaeth yn gweithredu o fewn y cyd-destun polisi cyfredol
 - v. Rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Drafft)
 - vi. Egluro sut, yng nghyd-destun gofynion TAN 20, y bydd gofyn i ni ddelio gyda'r iaith Gymraeg wrth benderfynu ceisiadau cynllunio ar ôl i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gael ei fabwysiadu a sut mae'r Gwasanaeth yn ceisio ymateb i hyn

- b) Mewn ymateb i'r adroddiad, gwnaed cais am eglurder o ran gofynion Polisi Cynllunio Cymru (TAN 20) a'r awgrym na ddylai ceisiadau cynllunio fod yn destun effaith ar yr iaith Gymraeg oherwydd y disgwylid fod hyn wedi ei wneud wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Ymatebodd yr Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd, y gallasai sefyllfa'r 'iaith' ar ôl mabwysiadu'r Cynllunio Datblygu Lleol fod yn wannach. O ganlyniad, bydd cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol newydd yn cael eu paratoi fel rhan o broses paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gyda bwriad rhoi blaenoriaeth i baratoi Canllaw Cynllunio Atodol sydd yn ymdrin â chymunedau cynaliadwy. Bydd y canllaw yma yn cynnwys manylder ar faterion cynllunio a'r iaith Gymraeg. Nodwyd bod pwynt tyngedfennol wedi ei gyrraedd o ran datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yng nghyd - destun llunio canllawiau priodol i roi ystyriaeth i'r iaith.
- c) Materion yn codi o'r drafodaeth:
- i. Sut mae cloriannu egwyddorion 'iaith' ac egwyddorion 'ymateb i'r galw am dai'?
 - ii. Sut gellid dylanwadu ar ffigyrau 'anghenion tai' sydd yn cael eu rhyddhau gan Lywodraeth Cymru ?
 - iii. Rhaid rhoi mwy o ystyriaeth i'r iaith o fewn y drefn cynllunio.
 - iv. Rhaid sicrhau cyfiawnder i'r iaith Gymraeg
 - v. A fydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn statudol?
 - vi. Rhaid cryfhau'r elfen iaith er mwyn sicrhau na fydd y Cyngor Llawn yn gwrthod y Cynllun Datblygu Lleol ar sail yr elfen yma.
 - vii. Rhaid sicrhau bod Deddfwriaeth Cymru yn gadarn
 - viii. A ddylid ystyried yr opsiwn o greu 'Bro Cymraeg' er mwyn uchafu'r grym?
 - ix. A ddylid ystyried polisiau lle gellid cadw pobl leol yn lleol
- ch) Mewn ymateb i'r sylwadau eglurwyd bod asesiadau iaith yn rhan o broses cynllunio Gwynedd ac yn un sydd, yn mynd tu hwnt i ofynion Llywodraeth Cymru, yn lobbio am newidiadau i'r Ddeddf Cynllunio ac yn gwthio ffiniau TAN mewn cyd-destun gofynion asesiadau iaith. Eglurwyd bod Panel Cynllunio ar y Cyd yn trafod yn chwarterol faterion cynhennus sydd yn ymwneud â effeithiau cymunedol, diwylliannol ac ieithyddol ac y bydd adroddiad yn cael ei baratoi i osod fframwaith statudol ar gyfer rhoi ystyriaethau i'r iaith. Ychwanegwyd bod swyddogion, wrth greu cynlluniau gydag ymgeiswyr, yn amlygu unrhyw bryderon fydd yn creu effaith ar yr iaith Gymraeg.

O ran statws y Canllawiau Cynllunio Atodol, cryfhau'r polisi Cynllunio fydd eu bwriad. Unwaith bydd y polisi wedi ei fabwysiadu, bydd y canllaw yn statudol o fewn y broses cynllunio.

Mewn ymateb i 'gryfder' y Cynllun Datblygu Lleol nodwyd bod gan y Cyngor rôl ddylanwadol dros y blynyddoedd nesaf. Ategwyd bod yr iaith yn fater sydd yn cael ei ystyried drwy'r cyfnod ynghyd â phroffiliau diwylliannol. Er mwyn cymeradwyo'r Cynllun bydd rhaid iddo fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac ar hyn o bryd, mynegwyd barn, bod y Cynllun yn un cadarn (gan gynnwys yr elfennau ieithyddol a chymunedol).

Ategwyd bod cyfle yma i'r Pwyllgor Craffu ddylanwadu ar elfennau cenedlaethol a chael mewnbwn i'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

Diolchwyd i'r swyddogion am yr eglurder ac am y drafodaeth adeiladol a gafwyd ar y mater.

PENDERFYNWYD

CEFNOGI GWAITH Y PANEL CYNLLUNIO AR Y CYD I GEISIO SICRWYDD BOD Y CYNIGION YN Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL YN CYFARCH HER YR IAITH YN DDIGONOL AC YN CYFARCH Y GALW AM Y NIFER O DAI.

BOD ANGEN SICRHAU MEWNBWN Y PWYLLGOR HWN A'R PWYLLGOR IAITH YN NATBLYGIAD Y CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL NEWYDD A'R SYLW A FYDD YN CAEL EI ROI I'R IAITH YN Y CANLLAW HYNNY.

6. CYTUNDEBAU ADRAN 106

- a) Ar gais aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio yn amlygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer y defnydd o gytundebau 106 a pha mor effeithiol oedd gweithredu'r polisïau hynny. Eglurwyd bod cytundebau 106 yn rhan o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac fel arfer yn gysylltiedig gyda chaniatâd cynllunio.
- b) Ategwyd bod Cyngor Gwynedd yn gwneud cryn ddefnydd o gytundeb 106 (sydd â rhestr eang o amodau) er mwyn gwireddu anghenion eu polisïau lleol sydd yn Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd - y cytundeb a ddefnyddi'r amlaf yw amod 106 tai fforddiadwy. Rhoddwyd manylion o gefndir statudol y cytundeb gan yr Uwch Gyfreithiwr ac amlygwyd bod trafodaethau eang yn cael eu cynnal yn aml gyda banciau a broceriaid ynglŷn â sicrhau benthyciadau.
- c) Mewn ymateb, nododd y Cyngorydd S Churchman yn unol a dymuniad y cyfarfod paratoi cafwyd trafodaeth gyda brocer annibynnol a oedd wedi cynnig opsiynau posib i'w hystyried gyda chais i gynnal trafodaeth bellach gyda grŵp bychan.
- ch) Mewn ymateb, nododd yr Uwch Gyfreithiwr ei fod, ynghyd a'r Adran Cynllunio ac Adran Tai yn cynnal trafodaethau a derbyn barn Mr Stephen Jones, Arbenigwr Tai Fforddiadwy Gogledd Cymru.

PENDERFYNWYD

GOHIRIO PENDERFYNIAD AM Y TRO A BOD GRŴP BACH O GYNGHORWYR A SWYDDOGION I GYFARFOD GYDAG UN NEU DDAU O ARBENIGWYR ALLANOL I EDRYCH AR OPSIYNAU POSIB ERAILL AR GYFER Y DEFNYDD O GYTUNDEBAU 106 GAN Y CYNGOR I'R DYFODOL.

7. CLUDIANT ADDYSG ÔL-16

- a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Cludiant Ôl-16 i Addysg Bellach. Nodwyd bod yr Aelod Cabinet wedi anfon ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod, ond amlinellodd yr Uwch Reolwr Ysgolion bod yr Aelod Cabinet yn diolch i aelodau'r ymchwiliad am eu gwaith trwyadl i'r maes. Ymddiheurwyd am yr oedi o gyflwyno adroddiad ac ategwyd bod y cyfle o gyflwyno / gweithredu rhai o'r argymhellion ar gyfer Medi 2015 wedi cael ei effeithio gan gyfnod 'purdah'. Nodwyd hefyd y bydd geiriad ac amodau Polisi Cludiant Ôl-16 yn cael ei symleiddio a'i addasu i gyfarch y newidiadau.

Eglurwyd bod yr argymhellion wedi eu rhannu i dri chategori a thrafodwyd hwy yn unigol. Rhai o'r newidiadau fydd codi un pris a dileu'r cysyniad o ddalgylch er mwyn sicrhau cysondeb o ran y ddarpariaeth. Y gobaith yw dileu rhywfaint o'r rhwystrau. Bydd geiriad ac amodau'r Polisi Cludiant newydd yn llawer symlach a

darllenadwy. Bydd hyn yn sicrhau gwell dealltwriaeth y defnyddiwr, y darparwyr addysg ynghyd â staff llinell gymorth Galw Gwynedd.

Ychwanegwyd bod yr awydd i gydweithio gyda Phartneriaid i gyfrannu at wella'r ddarpariaeth, a bod trafodaethau gyda Grŵp Colegau Llandrillo Menai i weithredu fel asiant wedi eu cynnal. Ategwyd bod diddordeb wedi ei nodi ond dim ymrwymiad hyd yma.

- b) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, cyflwynodd Mr S Chambers, Llywydd Undeb Myfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor ei gynigion ef i'r Polisi Cludiant Ôl -16. Nodwyd y sylwadau isod:
- Safon y gwasanaeth ac nid y pris sydd yn codi amheuaeth
 - Gorlawnder ar y bysiau - y bysiau yn codi aelodau o'r cyhoedd, disgyblion ysgol uwchradd ynghyd a myfyrwyr y Coleg - risg lechyd a Diogwch
 - Hyblygrwydd y tocyn – cyfyngder o ddefnydd dwywaith y diwrnod yn cyfrannu at orlawnder
 - Defnydd 'My Travel Pass' - Cynllun Llywodraeth Cymru. Pam nad yw gyrwyr bysiau yn ei dderbyn?
 - Angen trefniadau gwell ar gyfer cyfnodau tywydd drwg.
 - Awgrymu rhoi ffocws ar ansawdd ac anghenion y myfyrwyr
- c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:
- Bod gormod o wahaniaethau rhwng Deddfwriaeth Cymru a Lloegr ac mai ffocws gwreiddiol yr ymchwiliad oedd edrych ar yr anghysondebau hyn. Dadleuwyd nad oedd y Cyngor dim agosach at gynorthwyo pobl o aelwydydd difreintiedig
 - Pryder nad oedd 'My Travel Pass' yn cael ei dderbyn
 - Angen rhoi ystyriaeth i hyblygrwydd y tocyn – cynnig arbrofi hyblygrwydd i'r tocyn mewn ardal benodedig
 - Nid yw codi pris y tocyn o £60 i £100 yn deg - a oes modd adolygu hyn a chynnig £80?
 - Angen ystyried bysiau pwrpasol ar gyfer myfyrwyr yn unig i osgoi gorlawnder - cynnig yr angen i ymgynghori ymhellach gyda defnyddwyr
 - Angen cynnal trafodaethau pellach gyda chwmnïau cludiant cyhoeddus masnachol er mwyn ceisio atal y rhwystr o ddefnyddio tocyn unrhyw amser o'r diwrnod.
- ch) Cynigodd y Cynghorydd Gruffydd Williams y dylid galw ar yr Aelod Cabinet i beidio â chodi cost y tocyn o £60 i £100, a gofynnodd i hynny gael ei gofnodi. Ni eiliwyd y cynnig

PENDERFYNWYD:

- a) **MYNEGI PRYDER AM YR ARAFWCH YN Y GWEITHREDU AR YR ARGYMHELLION, CROESAWU'R GWAITH SYDD YN DIGWYDD BELLACH, OND PWYSO AM WEITHREDU BUAN AR Y CYFAN O'R ARGYMHELLION YN CODI O'R YMCHWILIAD, GAN OFYN YN BENODOL I'R AELOD CABINET RHOI SYLW I :**
- i. **SAFON AC ANSAWDD Y DDARPARIAETH YN RHANNOL YN SGIL GORLENWI**
 - ii. **Y CYFYNGIAD AR Y NIFER O DROEON NEU'R ADEGAU Y MAE MYFYRWYR YN CAEL DEFNYDDIO'R TOCYN AC AWGRYM BOD TRAFODAETH YN DIGWYDD GYDA DARPARWYR AM ARBROFI I GANIATÁU HYBLYGRWYDD AM GYFNOD**

iii. Y DEFNYDD O'R "MY TRAVEL PASS" - AMHARODRUYDD Y CWMNIAU BWS I GYDNABOD Y DEFNYDD OHONO

iv. CYSYLLTU Â LLYWODRAETH CYMRU I BWYSO AM WEITHREDU TREFN FEL SYDD YN LLOEGR I GYNORTHWYO MYFYRWYR O AELWYDYDD TLOTAF

b) GOFYNNIR I'R AELOD CABINET ADRODD YN ÔL AR Y MATERION HYN CYN MEDI 2016.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 12:45pm

CADEIRYDD

Eitem 5

CYFARFOD	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
DYDDIAD	12 IONAWR, 2016
TEITL	YMATEB Y CABINET I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU
PWRPAS	Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ar ymateb y Cabinet i argymhellion y Pwyllgor Craffu
AWDUR(ON)	Y Cynghorydd Angela Russell ac Arwel E Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni)

CYFLWYNIAD

1. Yn dilyn sylwadau diweddar mewn adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ac mewn holiadur ymysg aelodau ac uwch swyddogion y Cyngor, adnabuwyd yr angen i wella'r cyswllt a deialog rhwng y pwyllgorau craffu unigol a'r Cabinet er mwyn sicrhau y gellir adnabod dilyniant i waith craffu.
2. Fel arbrawf, cyflwynwyd papur i gyfarfod y Cabinet ar 15 Rhagfyr yn dwyn sylw ffurfiol y Cabinet at waith diweddar gan y pwyllgor craffu hwn, yn ei gyfarfod ar 17 Tachwedd, er mwyn cael trafodaeth gyhoeddus ffurfiol ar ymateb y Cabinet fel corff a'r Aelodau Cabinet perthnasol i argymhellion Craffu.
3. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yn bresennol a cafwyd trafodaeth agored a gonest gyda'r Cabinet. Mae gwe-ddarllediad o'r drafodaeth hynny ar gael ar http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/webcast_interactive/195392 (Gweler eitem 4).
4. Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno adroddiad yn ffurfiol, yn ôl i'r Pwyllgor Craffu o'r hyn a gytunwyd gan y Cabinet. Er gwybodaeth i'r pwyllgor, casgliad y Cabinet oedd y bu'r drafodaeth yn un fuddiol a cytunwyd i barhau gyda'r drefn o drafod materion sy'n codi o Bwyllgorau Craffu mewn cyfarfodydd Cabinet i'r dyfodol gyda chofnod o'r drafodaeth hon yn cael ei gylchredeg ymysg aelodau Pwyllgorau Craffu

EITEMAU

5. Cyflwynwyd tair eitem i sylw'r Cabinet. Fe grynhoir yr hyn a gyflwynwyd a'r ymateb iddynt isod:-

A. EITEM - YR IAITH GYMRAEG Â'R DREFN GYNLLUNIO

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s1129/Cynllunio%20ar%20iaith%20Gymraeg.pdf?LLL=1>

ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU

Ystyriwyd - Adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio ar y cefndir polisi a statudol ar gyfer yr Iaith Gymraeg a'r Drefn Gynllunio a datblygiadau allweddol sydd ar y gweill

Penderfynwyd

- a) Cefnogi gwaith y Panel Cynllunio ar y Cyd i geisio sicrwydd bod y cynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfarch her yr iaith y ddigonol ac yn cyfarch y galw am y nifer o dai.
- b) Bod angen sicrhau mewnbwn y pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Iaith yn natblygiad y Canllaw Cynllunio Atodol newydd a'r sylw a fydd yn cael ei roi i'r iaith yn y canllaw hynny.

YMATEB Y CABINET

Cadarnhaodd y Cyng. Dafydd Meurig y byddai yn croesawu mewnbwn y Pwyllgor Iaith a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i'r broses o greu'r Canllaw Polisi Cynllunio newydd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol.

B. EITEM - CYTUNDEBAU ADRAN 106

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s1132/Y%20defnydd%20o%20gytundebau%20dan%20adran%20106%20or%20Ddeddf%20Gynllunio%20Gwlad%20a%20Thref%201990.pdf?LLL=1>

ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU

Ystyriwyd – Adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio yn amlygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer y defnydd o gytundebau 106 a pha mor effeithiol oedd gweithredu'r polisïau hynny.

Penderfynwyd gohirio penderfyniad am y tro tra bod grwp bach o gynghorwyr a swyddogion i gyfarfod gydag un neu ddau o arbenigwyr allanol i edrych ar opsiynau posib eraill ar gyfer defnydd o Gytundebau 106 gan y Cyngor i'r dyfodol

YMATEB Y CABINET

Cadarnhaodd y Cyng. Dafydd Meurig ei fod yn croesawu argymhelliad y Pwyllgor Craffu Cymunedau i greu gweithgor o Gynghorwyr a Swyddogion fyddai'n cydweithio â phobl broffesiynol yn y maes er mwyn edrych ar amrywiol opsiynau o sut i weithredu Cytundebau Adran 106.

C. EITEM – CLUDIANT ÔL-16

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s1135/Gweithredu%20Argymhellion%20Adroddiad%20Ymchwiliad%20Craffu%20Cludiant%2016%20i%20Addysg%20Bellach.pdf?LLL=1>

ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU

Ystyriwyd – Adroddiad gan yr Aelod Cabinet (Addysg) yn ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Cludiant Ôl-16 i Addysg Bellach.

Penderfynwyd:-

- a) Mynegi pryder am yr arafwch yn y gweithredu ar yr argymhellion, croesawu'r gwaith sydd yn digwydd bellach, ond pwysu am weithredu buan ar y cyfan o'r argymhellion yn codi o'r Ymchwiliad, gan ofyn yn benodol i'r Aelod Cabinet rhoi sylw i:
 - i. Safon ac ansawdd y ddarpariaeth yn rhannol yn sgil gorlenwi
 - ii. Y cyfyngiad ar y nifer o droeon neu'r adegau y mae myfyrwyr yn cael defnyddio'r tocyn ac awgrym bod trafodaeth yn digwydd gyda darparwyr i arbrofi i ganiatáu hyblygrwydd am gyfnod
 - iii. Y defnydd o'r "My Travel Pass" – Amharodrwydd y cwmnïau bws i gydnabod y defnydd ohonno
 - iv. Cysylltu â Llywodraeth Cymru i bwysu am weithredu trefn fel sydd yn Lloegr i gynorthwyo myfyrwyr o'r aelwydydd tlotaf.
- b) Gofyn i'r Aelod Cabinet adrodd yn ôl ar y materion hyn cyn Medi 2016.

YMATEB Y CABINET

Ymatebodd y Cyng. Gareth Thomas i'r ymholiadau yn y drefn y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad i'r cyfarfod –

- i. Unwaith y bydd yr Adran Addysg yn ymwybodol o sefyllfa o orlenwi, maent yn ymateb iddi'n syth, fel arfer drwy ddarparu mwy o fysis.
- ii. Mae'n trafodaethau'n parhau gyda chwmnïau bysus er mwyn ceisio datrys y sefyllfa.
- iii. Mae hwn yn fater sy'n dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, a chytunodd yr Aelod Cabinet Rheoleiddio i gysylltu â'r Llywodraeth er mwyn ceisio datrys y sefyllfa.
- iv. Gan nad oedd hwn yn argymhelliad a gyflwynwyd gan y Gweithgor Craffu, cytunodd y Cyng. Gareth Thomas i wneud ymholiadau pellach ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu cyn Medi 2016, yn y gobaith y byddai modd gweithredu system newydd erbyn dechrau blwyddyn addysgol 2016/17.

Cadarnhawyd y byddai'r Aelod Cabinet yn ail ymddangos gerbron y Pwyllgor Craffu i gadarnhau pa argymhellion sydd wedi eu gwireddu er mwyn eu gweithredu o Medi, 2016 a hefyd y byddai'r Aelod Cabinet yn cynnig adroddiadau yn y cyfamser pe byddai materion yn codi lle byddai mewnbwn Craffu o gymorth.

Eitem 6

PWYLLGOR	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
DYDDIAD	12 Ionawr 2016
TEITL	Ymateb Cyngor Gwynedd i argyfwng y Ffoaduriaid o Syria
AELOD CABINET	Y Cyngorydd Ioan Thomas
PWRPAS	Rhoi amlinelliad i aelodau ynghlyn a pharatoadau

1. CEFNDIR

Mewn cyfarfod anffurfiol fe wnaeth aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd ddatgan awydd i estyn cymorth ac i chwarae rhan drwy ganfod llety i ffoaduriaid o Syria. Bellach mae pob cyngor yng Nghymru wedi nodi parodrwydd i estyn cymorth.

2. YSTYRIAETHAU

Niferoedd – Nid oes cadarnhad o ran disgwyliadau ar awudrodudau lleol unigol ond petai'r ffigwr i ailsefydlu 20,000 o ffoaduriaid y cyfeirwyd ato yn natganiad y Prif Weinidog yn cael eu dosrannu yn gyfartal ar draws y Deyrnas Gyfunol byddai gofyn i Wynedd dderbyn hyd at 40 o bobl dros gyfnod o 4 mlynedd a hanner. Rydym felly yn defnyddio'r ffigwr o 40 ar gyfer pwrpasau cynllunio. Mae trafodaeth wedi bod ynghlyn a phryd y byddai modd estyn cymorth ac yn sgil trafodaethau y bwriad fyddai derbyn tua 10 person yn y lle cyntaf er mwyn gallu dysgu o'r broses.

Amserlen –Y disgwyliad yw bydd Cyngor Gwynedd yn rhan o Wedd 2a ffyddai'n golygu y byddai'r grwp cyntaf o ffoaduriaid yn gallu cyrraedd yn ystod flwyddyn newydd ond mae elfen o hyblygrwydd ynghlyn a phryd y gellid derbyn pobl a bydd yn ddibynol ar drafodaeth gyda'r Swyddfa Gartref sy'n prosesu ac asesu'r ceisiadau.

Llety a Lleoliad –Mae ymdrechion cychwynnol ar gyfer y wedd gyntaf wedi canolbwyntio ar adnabod llety addas yn Ogledd y Sir gan ein bod o'r farn y byddai'n haws adnabod adnoddau cefnogol fyddai'n hwyluso ymdrechion i integreiddio. Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am eiddo o fewn y sector preifat er mwyn osgoi pwysau ar eiddo cymdeithasol ond fe all fod yn opsiwn i ystyried eiddo anodd ei osod i'r dyfodol.

Partneriaid Allweddol - Cyn derbyn unigolion bydd angen cysylltu gyda phartneriaid allweddol eraill er mwyn sicrhau bod ymdrechion yn cael eu cyd-drefnu a bydd angen trafod gyda lechyd er mwyn sicrhau fod darpariaeth addas ar eu cyfer. Byddwn hefyd yn ceisio dysgu o brofiad y 4 awurdod o Gymru sydd eisioes wedi derbyn ffoaduriaid er mwyn adnabod a oes modd efelychu unrhyw ymarfer da.

Cymorth Gwirfoddol – Dros y misoedd diwethaf mae nifer o fudiadau o Wynedd wedi gwneud cyfraniad arbennig at yr ymgyrch i helpu ffoaduriaid ac mae gan y sir draddodiad anrhydeddus o estyn cymorth a chrosawu pobl. Mae fwriad manteisio ar y profiad yma drwy gydweithio gyda rhai sydd a phrofiad o weithio yn y maes er mwyn sicrhau ein bod defnyddio adnoddau ac arbennigedd sy'n bodoli eisioes.

Ariannu – Rydym wedi cael cadarhad gan y Swyddfa Gartref ynghlyn a'r pecyn ariannol fydd ar gael i estyn cymorth ac i hwyluso integreiddio o fewn y gymuned. Mae Llywodraeth San Steffan bellach wedi cadarnhau y bydd ymrwymiad tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf gydag addewid y bydd peth arian yn parhau am gyfnod o 5 mlynedd er y bydd yn lleihau dros y 5 mlynedd.

Statws - Mae'r ffoaduriaid fydd yn cael eu hail leoli yng Nghymru wedi hadnabod fel y rhai mwyaf bregus a byddent yn cyrraedd o wersylloedd ffoaduriaid sydd wedi lleoli yn Libanus, Gwlad yr Iorddonen a Thwrci. Byddent wedi mynd trwy broses asesu drylwyr cyn cyrraedd ac yn derbyn gwarchodaeth ddyngarol llawn am 5 mlynedd sy'n golygu y bydd ganddynt hawl i fyw a gweithio o fewn y gymuned.

Eitem 7

PWYLLGOR	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
DYDDIAD	12 Ionawr 2016
TEITL	Strategaeth Wastraff: Newid i Gasglu Gwastraff Gweddilliol
AELOD CABINET	Y Cynghorydd John Wynn Jones
PWRPAS	Adrodd ar y prif ganfyddiadau [hyd yn hyn] o weithredu'r drefn yn Ardal Meirionnydd

1. CEFNDIR

1.1 Yn ei gyfarfod 24 Chwefror, 2015 bu i'r Pwyllgor Craffu benderfynu gwahodd yr Aelod Cabinet yn ôl i adrodd ar weithredu newidiadau i gasgliadau gwastraff gweddillol ym Meirionnydd gan adrodd os yw'r gwelliannau a'r arbedion wedi eu gwireddu. Mae'r Adroddiad hwn i'r pwrpas.

2. CYFLWYNO'R NEWID

2.1 Fel yn achos cyflwyno'r newid yn Ardal Dwyfor, 'roedd dau dîm yn gyfrifol am gyflwyno'r newid sef y Tîm Gweithredol [yn gyfrifol am wireddu'r Rhaglen Gweithredu] a'r Tîm Ymgysylltu [yn gyfrifol am wireddu'r Cynllun Ymgysylltu].

2.2 Cychwynwyd ar y drefn newydd o gasglu gwastraff gweddillol yn Ardal Meirionnydd ar 1 Mehefin, 2015.

3. CANFYDDIADAU

3.1 Bu i'r newid gael ei gyflwyno yn ddidrafferth, ac roedd yn amlwg o'r cychwyn bod trigolion Meirionnydd yn barod am y newid ac yn deall y trefniadau. Ychydig iawn o finiau a roddwyd allan ar y dyddiad anghywir a ni chafwyd llawer o wastraff "ochr" yn ystod y cyfnod o'i gyflwyno.

3.2 Fel cam i hwyluso ailgylchu i drigolion, cyflwynwyd Cartgylchu i anheddau [lle yn addas]. Dosbarthwyd 12000 mewn nifer ond nid oedd yn bosib eu dosbarthu i'r Ardal gyfan cyn y newid. Erbyn hyn mae'r mwyafrif llethol o drigolion yn yr Ardal sydd angen y Cartgylchu wedi ei dderbyn, neu yn ei gael drwy gysylltu â Galw Gwynedd.

3.3 Un elfen oedd rhaid bod yn wylidwrus ohono yn Ardal Meirionnydd oedd bod nifer o drigolion yn cael eu gwasanaethu drwy drefn pwyntiau cymunedol. O'r 140 o bwyntiau cymunedol dim ond 30 ohonynt erbyn hyn sy'n parhau i dderbyn casgliadau gweddillol pob pythefnos. Bydd hyn yn newid ar gyflwyno gwell darpariaeth ar gyfer ailgylchu yn y pwyntiau cymunedol hyn.

3.4 Heblaw am rai lleoliadau a amlygir yn 3.3 uchod, ni chafwyd problemau o unrhyw sylwedd mewn ymdopi a chynnydd mewn gwastraff oherwydd ymwelwyr yn ystod cyfnod cyflwyno'r newid.

- 3.5 Mae'r ffigyrau cychwynnol ar gyfer Ardal Meirionnydd am y cyfnod o 5 mis ers cyflwyno'r newid yn dangos bod gostyngiad o 23% mewn gwastraff gweddilliol sydd yn mynd i dirilenwi ac mae cynnydd o 30% yn yr hyn gesglir o wastraff bwyd.
- 3.6 Mae'r ffigyrau hyn ar gyfer Meirionnydd yn debyg iawn i rai gafwyd yn Ardal Dwyfor ar gyflwyno'r newid.
- 3.7 Ar ddiwedd Tachwedd 2015, mae ffigyrau perfformiad Gwynedd o ran y Mesur Cenedlaethol a Statudol ar gyfer ailgylchu yn 58.52%. Rhaid cyrraedd 58% erbyn diwedd Mawrth 2016 os am osgoi dirwyon.
- 3.8 Er bod angen cwblhau'r newidiadau yn Ardal Arfon [cychwynnwyd 2 Tachwedd 2015] mae'r newidiadau hyn ar darged i gyflawni arbedion rhaglunedig o £350k yn flynyddol i'r Cyngor.

4. YMHOLIADAU ERAILL GAN Y PWYLLGOR CRAFFU

- 4.1 **Trefniadau Nadolig a Gŵyl San Steffan** - adroddir ar lafar yn y cyfarfod.
- 4.2 **Negeseuon o ddiolch drwy'r calendr** - mae neges o ddiolch i drigolion Meirionnydd wedi ei wneud drwy Newyddion Gwynedd, fideo ar Wefan y Cyngor, Gwefannau Cymdeithasol ac yn weladwy yn Siop Gwynedd. Ni roddwyd neges ar y calendr [dwy flynedd] oherwydd yr angen ei gadw yn ddealladwy, syml a chlir.
- 4.3 **Biniau Stryd Ailgylchu** – er bod rhai o'r newydd wedi eu gosod yn Bala ac Abermaw, mae'r ddarpariaeth hwn dan adolygiad ar hyn o bryd oherwydd y gostyngiad sylweddol yn y grant perthnasol gan Lywodraeth Cymru ar ei gyfer a'r toriadau posib i ddarpariaeth biniau stryd y Cyngor.
- 4.4 **Ailgylchu Gwastraff Masnachol** - mae ailgylchu o ran gwastraff masnachol wedi cynyddu i oddeutu 40% [Hydref 2015] sydd yn well na'r targed a osodwyd gan y Cyngor. Mae hyn yn dilyn newid yn y trefniadau, darpariaeth a chyflwyno ffioedd gwahaniaethol i fasnachwyr.
- 4.5 **Gwella Taclusrwydd wrth gasglu** - mae hyn yn fater sydd yn cael ei fonitro yn rheolaidd a chyson. Mae yn fater sydd yn cael ei adrodd a thrafod yn wythnosol gyda'r gweithlu. Mae dyfodiad Cartgylchu a cherbydau casglu deunyddiau ailgylchu amlbwrpas newydd yn ymddangos wedi gwella pethau.
- 4.6 **Lleihau deunydd pacedu** - mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori a'r Cynllun Sector i'r pwrpas o reoli pacedu yn y dyfodol agos.
- 4.7 **Hybu Ail Gylchu mewn Fflatiau** – ymgyrchoedd i'r pwrpas a chyflwyno darpariaeth well ar gyfer ailgylchu yn parhau [gyda chydweithrediad Cartrefi Cymunedol Gwynedd mewn nifer o achosion].
- 4.8 **Casglu Lludw** - dylid defnyddio'r bin gweddilliol gan ofalu bod y lludw yn hollol oer, mae'r canolfannau ailgylchu hefyd yn derbyn lludw.
- 4.9 **Amlygu Lliwiau ac atgoffa drwy e bost** - mae'r calendr newydd yn defnyddio siapiau ynghyd a lliwiau er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy. Mae'r defnydd o decst dan ystyriaeth gyda myfyrwyr/undeb y myfyrwyr. Gall trigolion Gwynedd sefydlu beth yw eu diwrnod casglu, beth a gesglir, drwy roddi eu cod post ar wefan y Cyngor.

5. CANLYNIADAU

- 5.1 Mae'r drefn nawr yn weithredol yn Ardal Meirionnydd. Mae hyn wedi cynorthwyo'r Sir i wella ar ei berfformiad ailgylchu, sicrhau arbedion ariannol sylweddol a chyfrannu tuag at osgoi dirwyon posibl.
- 5.2 Mae gwaith rhagorol wedi ei wneud gan y gweithwyr a holl staff ynghlwm mewn gweithredu'r newidiadau. Mae'r diolch iddynt hwy a thrigolion Meirionnydd am sicrhau bod hyn wedi ei gyflawni mor ddidrafferth.

Eitem 8

ENW'R PWYLLGOR CRAFFU	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
DYDDIAD Y CYFARFOD	12 Ionawr 2016
TEITL	Y Gwasanaeth Difa Pla
AWDUR	Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro)
AELOD CABINET	Y Cyngorydd Dafydd Meurig
PWRPAS	Craffu opsiynau posib ar gyfer darpariaeth y gwasanaeth difa pla i'r dyfodol

1. CEFNDIR

1.1 Fel rhan o raglen arbedion effeithlonrwydd yr Adran Rheoleiddio ar gyfer 2015-18 cyflwynwyd arbedion gwerth £67,000 drwy ddileu'r gwasanaeth difa pla sydd i mewn Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yr Adran. Pan gyflwynwyd cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yr Adran i'r Cabinet, penderfyniad y Cabinet o safbwynt y Gwasanaeth Difa Pla, oedd gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau gael eglurder ar wir effaith y prif opsiynau gan gyfarch y cwestiynau isod:

- Petasai'r ffi yn codi er mwyn adfer y gost o ddarparu'r gwasanaeth, a fyddai dal yn gystadleuol gyda'r sector breifat?
- Beth fyddai'r effaith o godi'r ffi ar adrannau eraill Cyngor Gwynedd?

1.2 Y bwriad ar y pryd oedd adrodd ar y mater i'r Pwyllgor Craffu yn Nhachwedd 2015, ond nid oedd hyn yn bosib oherwydd newidiadau rheolaethol o fewn yr Adran a'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd a blaenoriaethau eraill oedd yn codi'n sgil hynny.

2. PWRPAS

2.1 Gan ystyried penderfyniad y Cabinet a'r cwestiynau uchod, mae 3 prif elfen i bwrpas yr adroddiad yma i'r Pwyllgor Craffu, sydd fel a ganlyn:

1. Esboniad o natur y gwasanaeth rheolaeth a difa pla.
2. Amlinellu a diweddarau'r pwyllgor ar beth sydd dan ystyriaeth o ran arbediad effeithlonrwydd.
3. Esbonio i'r pwyllgor yr ystyriaethau sydd dan sylw gan yr Adran Rheoleiddio i gwrdd â'r arbediad sydd ei angen.

2.2 Fe fydd yr adroddiad hefyd yn ymateb i'r dymuniad gan aelodau'r Pwyllgor Craffu yn dilyn y cyfarfod paratoi, i gael gwybodaeth bellach ar 4 pwynt er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gwasanaeth ac effaith posib o leihau'r gyllideb fel a ganlyn:

- Gwybodaeth am y mathau gwahanol o blâu sydd yn derbyn sylw (hynny yw bod pawb yn sôn am lygod mawr ond mae angen cael darlun llawnach o beth yw'r gwasanaeth)


- Nodyn yn adrodd os yw'r symudiad i gasgliadau tair wythnos wedi cael effaith o weld cynnydd mewn amlygrwydd pla yn y sir
- Nodyn am y graddau y mae darpariaeth breifat ar gael sydd yn gallu llenwi unrhyw wagle pe byddai'r arbediad yn cael ei wireddu
- Dadansoddiad o'r posibilrwydd o wneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol trwy gynyddu ffioedd ar ei gyfer

3. ESBONIAD O NATUR Y GWASANAETH RHEOLAETH A DIFA PLA

3.1 Nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaeth rheoli a difa pla. Fodd bynnag, o dan y Ddeddf Diogelu Difrod gan Bla 1949 (Prevention of Damage by Pests Act 1949) mae'n ofynnol iddynt gymryd camau angenrheidiol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bod eu hardal yn cael ei gadw'n rhydd rhag llygod mawr a bach. Yn benodol, rhaid i'r awdurdodau lleol gadw ei eiddo ei hun a thir arall y mae'n ei feddiannu yn rhydd rhag llygod mawr a bach. Mae gofyn iddynt hefyd sicrhau bod perchnogion a meddianwyr tiroedd eraill yn cydymffurfio a'u dyletswyddau tebyg o dan y Ddeddf.

3.2 Mae'r Uned Rheoli a Difa Pla yng Ngwynedd yn bodoli o fewn yr Uned Gwasanaethau Cleientiaid, Gwarchod y Cyhoedd. Mae gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn cyflogi 4 swyddog llawn amser i weithredu fel Swyddogion Difa Pla/Wardeniaid Anifeiliaid. Mae'r swyddogion yn treillio 70% o'u hamser yn darparu gwasanaeth Rheoli a Difa Pla, 20% o'u hamser yn darparu gwasanaeth statudol Rheoli Cŵn ac mae 10% o'u hamser ar gydweithio gyda'r Swyddogion Iechyd Amgylchedd ar faterion statudol o wahardd niwsans sŵn a gwarchod iechyd cyhoeddus. Mae holl gostau sy'n gysylltiedig â chyflogi'r swyddogion wedi eu rhannu rhwng y penawdau gwaith hyn, ac yn cael ei ddangos ar ffurf diagram yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Diagram yn dangos rhaniad gwaith swyddogion rheolaeth a difa pla:



3.3 Mae'r uned yn cynnig gwasanaeth drwy gytundeb i gleientiaid allanol a mewnol i reoli pla, yn ogystal â gwasanaeth ymatebol i ddifa pla.

4. GWAITH CYTUNDEBOL I REOLI PLA

- 4.1 Mae gan y gwasanaeth nifer o gytundebau gyda chleientiaid allanol a mewnol i reoli pla. Mae'r holl gytundebau mewnol ac allanol wedi eu hatodi yn **atodiad 1** er gwybodaeth a gellir gweld bod yr uned yn creu incwm o £25,868.08 drwy gytundebau allanol, a £24,319.24 drwy gytundebau mewnol, sydd yn gyfanswm o £50,187.32. Dylid nodi nad yw'r uned yn hysbysebu na marchnata'r gwasanaeth yma ar hyn o bryd.
- 4.2 Mae'r cytundebau yn cynnig contractau i atal a difa pla i fusnesau a sefydliadau masnachol ac i rai sefydliadau'r Cyngor. Mae'n bosib teilwra contract i gwrdd ag anghenion unigol, a gellir llunio contract 6 mis neu flwyddyn gyfan.
- 4.3 Mae contract safonol ar gyfer sefydliadau allanol yn cynnwys 4 ymweliad monitro ac i ddelio â llygod (bach neu fawr), yn ogystal â 4 ail ymweliad fel bo'r angen. Gellir ychwanegu at nifer yr ymweliadau ac at y math o blâu sydd i'w gynnwys o fewn contract. Mae pris y contract yn amrywio yn ddibynnol ar faint y safle a'r math o bla sydd i'w gynnwys yn y contract. Mae pris contract safonol blynyddol ar gyfer safle llai na 3600m² yn £243.56 neu £487.14 ar gyfer safle mwy. (Prisiau yn cynnwys TAW.)

5. GWAITH YMATEBOL DIFA PLA

- 5.1 Mae'r uned yn cynnig gwasanaeth ymatebol i ddifa pla ar eiddo domestig a masnachol ar gyfer ystod eang o bla.
- 5.2 Mae llawer o ganmol gan gwsmeriaid am y gwasanaeth hwn, ac mae'r gwasanaeth yn anelu i ymweld yr eiddo o fewn 3 diwrnod gwaith o dderbyn y cais. Mae'r driniaeth o unrhyw bla yn cynnwys mwyafswm o 4 ymweliad triniaeth, felly nid yw cost y driniaeth i'r cwsmer yn gwahaniaethu rhwng y nifer o ymweliadau triniaeth sydd angen i waredu'r pla. Mae'r ffioedd sydd yn cael eu codi am wasanaeth ymatebol difa pla wedi ei dangos yn Nhabl 1.

Tabl 1: Ffioedd am wasanaeth ymatebol difa pla.


Pla	Domestig	Masnachol
Llygod Mawr	£40.50	£47.49
Llygod Tŷ	£40.50	£47.49
Chwilod Du (cocroctsys)	£112.07	£132.10
Chwilod Gwely	£135.61	£159.85
Chwain	£46.27	£102.04
Gwiwerod Llwyd	£113.65	£133.98
Gwenyn Meirch	£49.97	£58.90
Gwenyn	£49.97	£58.90
Morgrug	£49.97	£58.90
Chwilod Bisgedi	£49.97	£58.90
Chwilod Carped	£49.97	£58.90
Pryfed Clwstwr/Gwybed	£49.97	£58.90
Pryfed Llyfrau	£49.97	£58.90
Gwyfynod	£49.97	£58.90
Gwiddon Llwhch Tŷ	£49.97	£58.90

- 5.3 Mae gwaith cefndirol wedi ei wneud i gymharu ffioedd am wasanaeth difa pla ar draws Cymru. Mae yna hefyd gwybodaeth ar ffioedd y sector breifat, ond mae'r rhain ar y cyfan wedi bod llawer fwy anodd cae penderwydd arnynt.
- 5.4 Oherwydd bod y sector breifat yn eithaf amddiffynnol o'r hyn maent yn gallu ei wneud ar y prisiau maent yn eu codi, mae yn anodd iawn bod yn bendant am y graddau y mae darpariaeth breifat ar gael sydd yn gallu llenwi unrhyw wagle pe byddai'r arbediad yn cael ei wireddu.
- 5.5 Mae'r gwasanaeth yn creu incwm o oddeutu £34,000 yn flynyddol o waith ymatebol difa pla, ac wrth gwrs does dim sicrwydd pendant ar faint yr incwm yma oherwydd natur y gwaith. Mae nifer o resymau amgylcheddol sydd yn cynyddu'r amllder pla, ac wrth gwrs mae ffynhonnell o fwyd parod yn gallu arwain at bla llygod mawr a bach. Mewn ymateb i gwestiwn penodol gan y pwyllgor yn gofyn a yw'r symudiad i gasgliadau tair wythnos wedi cael effaith o weld cynnydd mewn amlygrwydd pla yn y sir. Yr ateb syml yw nad yw'r gwasanaeth wedi gweld llawer o newid yn y galwadau oherwydd casgliadau biniau. Efallai yn annisgwyl i aelodau'r pwyllgor, ceisiadau am wasanaeth i gael gwared a gwenyn meirch sydd yn cael ei alw amdano fwyaf aml. Mae Tabl 2 yn dangos cymhariaeth o ba mor aml mae'r gwasanaeth yn cael eu galw i ddelio gyda gwahanol fath o bla. (Y mae'r ffigyrau yn unol â'r adroddiad Gwasanaethau Rheoleiddio CIPFA ar gyfer 2014-15.)

Tabl 2: Cymhariaeth o alw am wasanaethau difa pla yn 2014-2015.

Math o Bla	Cais am Gyngor	Cais Difa Pla
Llygod Mawr	240	354
Llygod Tŷ	62	156
Chwilod Du (cocrotsys)	3	2
Chwilod Gwely	7	3
Chwain	35	84
Gwiwerod Llwyd	4	2
Gwenyn Meirch	173	478
Gwenyn	55	8
Morghrug	17	53
Pryfetach eraill	56	46
Gwylanod	34	0
Arall	45	4
CYFANSWM	731	1190

Ffigwr 2: Dadansoddiad o'r 1190 o geisiadau am wasanaeth difa pla yn 2014-15



6. COSTAU Y GWASANAETH

6.1 Mae'r gyllideb ar gyfer y gwasanaeth Rheoli a Difa Pla am y flwyddyn 2015-16 yn amcangyfrif y bydd costau darparu'r gwasanaeth yn £144,880.

Staffio	£ 92,260
Fflyd	£ 8,900
Offer a nwyddau	£ 14,910
Ad-daliadau	<u>£ 28,810</u>
Cyfanswm Cost	£144,880

6.2 Mae targedau incwm wedi eu sefydlu ar gyfer y gwasanaeth Rheoli a Difa Pla, ac ar gyfer y flwyddyn 2015-16 £88,590 oedd y targed, sef £3,840 credyd pensiynau a £84,750 o ddarparu gwasanaeth, oedd wedi ei rannu fel a ganlyn:

Gwasanaeth ymatebol Allanol	£31,470
Gwasanaeth ymatebol Mewnol	<u>£ 3,140</u>
	£34,610
Contractau Allanol	£24,840
Contractau Mewnol	<u>£25,300</u>
	£50,140
Cyfanswm Incwm	£84,750

6.3 Felly cost net y gwasanaeth ar gyfer 2015-16 fyddai **£56,290** (£144,880 - £88,590), ac felly, fe fyddai yn rhaid i'r uned greu £56,290 o incwm ychwanegol i fod yn hunan gynhaliol.

6.4 Mae yn bwysig iawn nodi nad yw'r ffigwr o wneud yr uned yn hunan gynhaliol yr un ffigwr a fyddai yn cael ei arbed pe byddai'r uned yn cael ei diddymu. Mae'r uned yn cyfrannu £27,850 tuag at gostau canolig y Cyngor sef costau cyfreithiol, adnoddau dynol, rheolaeth y gwasanaeth ayyb. Fe fyddai yn rhaid i'r Cyngor ariannu'r gwasanaethau yma mewn rhyw ffordd, felly'r gwir arbediad i'r Cyngor pe byddai'r uned yn cael ei ddiddymu byddai **£28,440** (£56,290 - £27,850).

- 6.5 Mae'r gwasanaeth wedi ymdrechu i gynnal y nifer o gontractau yn 2015-16 ac erbyn hyn wedi llwyddo i greu 94 o gontractau allanol a 170 o gontractau mewnol. Disgwylir i'r incwm cwrdd y targed am y flwyddyn.

Contractau Allanol	£25,868
Contractau Mewnol	<u>£24,319</u>
	£50,187

- 6.6 Fodd bynnag, nid yw'r gwir incwm sydd yn cael ei greu drwy ddarparu gwasanaethau ymatebol mor ddibynnol oherwydd natur y gwaith, ond mae'r gwasanaeth yn llwyddo i fod yn agos iawn neu gyrraedd y targed o £34,610 yn flynyddol.

7. ARBEDIAD EFFEITHLONRWYDD DAN YSTYRIAETH

- 7.1 Pan drafodwyd arbediad cychwynnol o'r uned hon, yr oedd ffigwr o **£67,000** yn cael ei son amdano. Ar y pryd yr oedd 5 swyddog rheoli a difa pla yn yr uned, ac mae un swydd eisoes wedi ei diddymu o'r strwythur fel rhan o arbedion yr Adran, sydd yn gadael y sefyllfa gyfredol o 4 swyddog.
- 7.2 Debyg bod y ffigwr £67,000 wedi ei weithio allan ar y pryd fel y ffigwr i gyfarfod yr arbediad i'r Cyngor pe byddai'r uned yn cael ei diddymu, ond fel sydd wedi ei esbonio eisoes yn yr adroddiad yma, **£28,440** fyddai'r ffigwr yma bellach.

8. OPSIYNAU I GYFARFOD YR ARBEDIAD YN LLAWN NEU YN RHANNOL

- 8.1 Mae y rhan yma o'r adroddiad yn edrych ar opsiynau a dadansoddi'r posibilrwydd o wneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol trwy gynyddu ffioedd ar ei gyfer, fe sydd wedi ei ddymuno gan y pwyllgor.
